



## AWDURDOD ADDYSG - YNYS MÔN - EDUCATION AUTHORITY

### YSGOL Y GRAIG

Ffordd y Coleg


Lôn Talwrn

Llangefni

Ynys Môn / Anglesey

LL77 7LP

[www.ysgolygraig.co.uk](http://www.ysgolygraig.co.uk)



Pennaeth / Headteacher  
**MEINIR ROBERTS BAdd.**



(01248) 723092

(01248) 750470



[ysg2154@ynysmon.gov.uk](mailto:ysg2154@ynysmon.gov.uk)

**10/02/2021**

### Ail-agor ysgolion i blant y Cyfnod Sylfaen,

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn edrych ar ddata coronafirws ym Môn. Mae'r sefyllfa'n parhau yn ddwys ar yr ynys. Yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid Ynys Môn penderfynwyd, fe fydd plant y Cyfnod Sylfaen (meithrin – BI2) yn cychwyn yn ôl i'r ysgolion yn raddol o ddydd Iau Chwefror y 25ain 2021. Mae hyn oherwydd bod nifer yr achosion ym Môn yn parhau i fod yn uchel. Felly, bydd plant dosbarthiadau Meithrin a Derbyn (Y Nyth, Y Winllan a'r Fenai) yn cychwyn yn ôl ar ddydd Iau, Chwefror y 25ain, gyda Blwyddyn 1 a 2 (Porth Wen, Y Felin, Llanddwynn a Borth) yn dychwelyd ar ddydd Llun Mawrth y 1af. Bydd athrawon Meithrin a Derbyn yn parhau i ddarparu addysg o bell rhwng 22/02/21 a 24/02/2021 a bydd athrawon Blwyddyn 1 a 2 yn parhau i ddarparu addysg o bell rhwng 22/02/21 a 26/02/21, fel sydd wedi bod yn digwydd yn ystod yr hanner tymor hwn. Bydd sesiynau ffrydio byw hefyd yn parhau yn ystod yr wythnos hon.

Bydd amser cychwyn a gadael yr ysgol yn aros yr un fath ag yr oedden nhw'r tymor diwethaf. Felly bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol unai rhwng:

8.45yb – 2.45yh NEU 9.00yb – 3.00yh NEU 9.15yb – 3.15yh NEU 9.30yb – 3.30yh

Bydd yr athrawes yn eich atgoffa o amseroedd eich plentyn. Bydd plant y Meithrin yn parhau i ddod i'r ysgol yn ystod eu horiau arferol sef 9-11yb neu 1-3yh.

Nid ydym ar hyn o bryd yn gwybod os bydd ysgolion yn darparu clwb gwarchod bore/brecwast neu beidio. Rydym yn aros am gyfarwyddyd pellach. Ni fydd yr ysgol yn darparu cinio i'r plant ar hyn o bryd, ac felly bydd eich plentyn angen pecyn bwyd.

Byddwn yn dilyn yr un trefniadau ag yr oedd yn bodoli'r tymor diwethaf ar gyfer rhyddhau plant diwedd y dydd, gyda phawb yn gadael drwy giât yr iard.

Bydd yr ysgol yn parhau i ddarparu hwb gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed. Fodd bynnag, er bod yr ysgolion yn dechrau ail-agor, mae Cymru'n parhau i fod mewn cyfnod clo, a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yw i bawb AROS ADREF. Dylai pawb sydd yn gallu gweithio o adref wneud hynny. Dim ond rhieni **nad oes ganddynt opsiwn arall** ddylai anfon eu plant i'r hwb gofal. Drwy wneud hyn, mae gobaith y bydd lefelau'r firws yn dod o dan reolaeth, a gallwn ailagor yr ysgol i blant CA2.

Gofynnwn i chi felly gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru – sef

- cadw pellter cymdeithasol wrth nôl a danfon eich plant
- osgoi sefyll a sgwrsio efo rhieni eraill
- gwisgo masg ar dir yr ysgol wrth ddod â'ch plentyn i'r ysgol ac yna eu nôl nhw ar ddiwedd y dydd

Yn gywir,

Mrs Meinir Lois Roberts

Pennaeth Ysgol y Graig